# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y "Cyfarfod Arbennig" a gynhaliwyd ar y 10.01.24 am 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol**: David Griffiths – Cadeirydd (DG), Geraint Edwards – Is-gadeirydd (GE), Huw Davies (HD), Ian Williams (IW) Keith Carroll (KC), Geraint Micah (GM) Louise Hughes (County Councillor), Jane Jenkins (Clerk).

1. **Ymddiheuriadau:** Nicola Roberts, Jen Warne, Meg Griffiths.

2. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **Praesept:**

Galwyd y cyfarfod arbennig yma i drafod a chytuno'r gyllideb a chais praesept ar gyfer y flwyddyn **2024/25**, gan fod hyn yn ofynnol cyn cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned ym Mis Chwefror, sef 14.02.24.
Cymharwyd cyllideb **2023/24** yn erbyn yr arian a gafodd ei wario, a sefydlwyd nad oedd angen neulltio gymaint o arian at rhai eitemau, a oedd yn gadael arbediad arian ar gyfer jiglo rhai ffigurau.
**Cytunwyd felly y byddai'r Praesept 2024/25 yn aros yr un fath a llynedd = £13,164.**

Cytunwyd y dylai arian a glustnodwyd at costau fel etholiadau, costau offer cyffredinol, costau gwefan y Cyngor Cymuned yn cael eu dangos yn glir, a'u gosod o'r neilltu ar y Datganiadau Ariannol, ac yn ddelfrydol cael eu gosod mewn cyfrif cynilo gyda Banc Nat West, lle gellir gael llôg ar yr arian.

Ar 31.03.24, bydd costau a glustnodwyd o'r Praesept 2023/2024 â'r flwyddyn i ddod sef 2024/2025 yn cael ei dangos ar linell ar wahân o fewn y datganiadau ariannol misol. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i weld yn union beth sydd ar ôl yn y pot ar ddiwedd y flwyddyn (os oes rhywbeth ar ol).

Wrth drafod dyfynbrisiau y gwaith torri gwair, gofynwyd i DG a GM adael yr ystafell, gan fod y ddau ohonynt yn rhoi dyfynbris bob blwyddyn am y gwaith, felly ni ddylent fod yn rhan o drafod y gyllideb ar yr eitemau yma.
JJ i ddarparu'r gwaith papur perthnasol ar gyfer y cyfarfod ym Mis Chwefror.

4. **Adroddiad Ariannol:** Cymeradwywyd a llofnodwyd y datganiad ariannol. **Cynnig:** IW **Eilio:** GE.

'Roedd pedair siec i'w harwyddo, dwy i Kompan ar gyfer y Spica a'r Triangular Podium i'r cae chwarae, dwy ar gyfer Archwiliad Cymru mewn perthynas â'r archwiliad 2021/22, ac archwiliad allanol 2022/23.

5. **Unrhyw Fater Arall:**

- Adroddodd IW bod angen glanhau'r cwteri rhwng Encil a Clydwen (Llangelynnin) –
- Adroddodd GM fod dŵr yn rhedeg allan o Plas Gwyntog, Rhoslefain ac yn syth ymlaen i'r A493, a bod y ffordd yn dueddol o fod yn llithrig iawn yn y tywydd oer.
  **JJ i gysylltu a Adrian Williams ynglyn a'r materion uchod.**
- Adroddodd DG am y dyfynbris yr oedd wedi'i gael ar gyfer sedd y safle bws – awgrymwyd y dylid y mater gael ei drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf ym Mis Chwefror.
  Yn y cyfamser, bydd DG a KC i geisio cael dyfynbrisiau pellach ar gyfer y gwaith atgyweirio.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher - 14.02.24 - am 7 o'r gloch yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd …………………………………………………………………………………………… Dyddiad …14.02.24………..**